**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/JMHSC/0600/25

Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddIechyd@senedd.cymru

21 Tachwedd 2025

Annwyl Peter,

Efallai eich bod yn ymwybodol bod y polisi clefydau prin wedi'i alinio ar draws y Deyrnas Unedig trwy Fframwaith Clefydau Prin y DU (2021-2026). Mae strwythur y Fframwaith yn adlewyrchu pedair blaenoriaeth: (i) helpu cleifion i gael diagnosis terfynol yn gynt; (ii) codi ymwybyddiaeth o glefydau prin ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; (iii) cydgysylltu gofal yn fwy effeithiol; a (iv) gwella mynediad at ofal arbenigol, gan gynnwys triniaethau a meddyginiaethau. Mae hyn yn cael ei ategu gan gynlluniau gweithredu cenedlaethol sy'n amlinellu'r camau y bydd pob gwlad yn eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, megis Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Clefydau Prin.

Mae'r Fframwaith wedi tynnu mwy o sylw at glefydau prin, gan alluogi'r pedair gwlad i rannu gwybodaeth am ddatblygu gwasanaethau, a'r mewnbwn strwythuredig a ganiateir oddi wrth y trydydd sector. Mae manteision amlwg i'r dull gweithredu hwn o ystyried bod nifer yr achosion o glefydau prin unigol yn gyfyngedig. Disgwylir i'r Fframwaith ddod i ben ym mis Ionawr 2026, ac mae swyddogion o bob un o'r pedair gwlad wedi bod yn ystyried sut y gellir cydweithredu ar bolisi clefydau prin ledled y DU yn y dyfodol.

Yn dilyn y trafodaethau hyn ar lefel swyddogol, ysgrifennodd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU dros Iechyd y Cyhoedd ac Atal at Weinidogion y Llywodraethau Datganoledig ar 26 Awst yn cynnig ymestyn y Fframwaith am gyfnod o flwyddyn. Roedd y cynnig hwn yn adlewyrchu awydd y pedair gwlad i sicrhau bod digon o amser ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned clefydau prin ynghylch cyfeiriad y polisi yn y dyfodol. Roedd hefyd yn cydnabod yr etholiadau seneddol a gaiff eu cynnal yn 2026 yng Nghymru a'r Alban, a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ad-drefnu strwythur GIG Lloegr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ymateb drwy gadarnhau fy nghefnogaeth i’r estyniad o flwyddyn, fel y mae fy nghydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gwneud. Mae ein cytundeb ar y cyd yn golygu y bydd y Fframwaith a Chynllun Gweithredu Cymru yn parhau tan fis Ionawr 2027. Rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i roi gwybod ichi am yr estyniad hwn.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care